

Cofion

Yr ydym yn parhau i gofio yn ein gweddiâu am y rhai sydd mewn anhwylder y dyddiau hyn gan eu cyflwyno'n dyner i ofal yr Arglwydd. Cofiwn yn arbennig am Gruffydd Jones (Llansannan) sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gobowen ddiwedd yr wythnos hon, a hefyd Bob Williams a Doreen Evans (Tanyfron) sy'n parhau'n Ysbyty Glan Clwyd, fel ag y mae Barbara Williams (Henllan) yn yr Inffirmari. Yr ydym yn eu hamgylchynu yn ein gweddiâu ac yn deisyf adferiad iechyd buan iawn iddynt. Cofiwn hefyd am bawb arall o'r Fro sydd heb fod yn dda, a chofiwn yn dyner iawn hefyd am eu teuluoedd. Gweddiwn y byddant oll yn cael eu diogelu a'u cadw ac y byddant yn profi Duw yn ddigon yn eu hangen.

Adnabod

Dechreuwyd y sesiynau *Adnabod* yn ôl yn nechrau 2006 a chafwyd nifer yn mynegi eu gwerthfawrogiad i gael cyfle trwy'r sesiynau hyn i ddod i adnabod Duw yn well. Bydd o leiaf un grŵp **newydd** yn cychwyn nos Fercher nesaf â'i leoliad yn dibynnu ar bwy fydd yn dangos diddordeb. Cyfres o chwe sesiwn fydd hwn ac yn gyfle i ystyried beth yw Cristnogaeth go iawn, i ddysgu mewn dull anffurfiol ac i rannu cymdeithas gyda'n gilydd. Beth am annog rhywun i ddod hefo chi?

Os oes gennych chi ddiddordeb i ymuno, plis cysylltwch â Mair (870632 / mair@eglwysibroaled.com) erbyn nos Lun er mwyn i ni gael trefnu lleoliad addas.

Bydd y grwpiau eraill hefyd yn ail-gychwyn nos Fercher. Mi fydd ychydig o newid i'r drefn a fu ond bydd yr arweinwyr yn cysylltu â chi gyda mw y fanylion.

"A hyn yw bywyd tragwyddol: dy adnabod di, yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonai ti, Iesu Grist." (Ioan 17:3)

I ddod

- **Gwasanaeth Diolchgarwch Ysgol Pant Pastynog** yng Nghapel Saron nos Lun, Hydref 17eg am 6.00.
- **Taith y Cyfundebau 2011** yng Nghapel Bethel, Yr Wyddgrug: Nos Lun, Hydref 17eg - cyflwyniad "Annibynwyr Cymru" gan y Parch. Ddr. Geraint Tudur am 7.00; Dydd Mawrth, Hydref 18fed – Trafodaeth anffurfiol yn seiliedig ar ddarnau byr o'r Beibl am 2.00, Seiat Holi am 4.00, a Gwasanaeth byr ar y thema 'Beth nesaf' gyda'r Parch. Ddr. Geraint Tudur, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Annibynwyr am 7.00. Croeso i bawb.
- **Gŵyl Ddiolchgarwch yn Llanefydd** nos Fercher, Hydref 19eg am 7.00 gyda Mr David Owens yn pregethu.
- **Paned a sgwrs** yn y caffi yn Henllan dydd Iau, Hydref 20fed am 3.00.
- **Gwasanaeth Diolchgarwch Ysgol Rhydgaed yng Nghapel Groes** dydd Iau, Hydref 20fed am 2.15, a bydd oedfa am 7.00 yr hwyr o dan arweiniad Dr Rhodri Glyn.
- **Cyfarfod Diolchgarwch yng Nghapel Cefn Berain** nos Wener, Hydref 21ain am 7.00. Pregethir gan y Parch. Tom Wright.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 9^{fed} Hydref 2011

Mae 'Adnabod' yn ail-gychwyn nos Fercher – beth am ymuno â ni? Mwy o fanylion ar y cefn.

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Mae'n dymor y Diolchgarwch a rhoi diolch yw fy mraint i heddiw. Bu'r daith yn hir a daeth sawl tro ar fydd ers i Mair, Rhodri a minnau ddilyn galwad yr Arglwydd i'r weinidogaeth a'r fugeiliaeth Gristnogol. Daeth penllanw nos Sul diwethaf hefo'r Gwasanaeth Sefydlu a Chomisiynu. Llawenydd mawr oedd cael cwmni cymaint ohonoch a bod yng nghymdeithas y rhai sydd wedi ein cymell a'n hannog yn yr Arglwydd dros yr holl flynyddoedd i wrando'i alwad ac ymateb iddo. Diolch am groeso'r Fro ac am gael ein harwain mewn addoliad bywiol.

Diolch hefyd i Trefor a Medwen am baratoi'r capel hefo'r graen arferol. Fydda'r noson ddim yn gyflawn chwaith heb i ni gael swper hefo'n gilydd ac mae'n diolch i chwi a fu'n paratoi ac yn gweini mor weithgar yn un cywir iawn. Nid am y tro cyntaf y gwelwyd y festri dan ei sang a phawb yn cael digon o fwyd blasus a phaned dda!

Dwn i ddim lle i ddechrau olrhain y daith! Efallai mai'r peth gorau i'w wneud ydi edrych ymlaen, ond ddaw dim llawer o fudd o hynny chwaith heb werthfawrogiad o ryfeddodau'r Arglwydd yn y gorffennol. Wrth godi diolchgarwch am y cynhaeaf eto eleni diolchwn hefyd am yr had ysbrydol a heuwyd yn ein gorffennol – y Gair bywiol – a'r ffrwyth a ddaeth yn ein bywydau ninnau o dan ddylanwad goleuni a gwres yr Ysbryd a thrwy ras Duw dros holl dymhorau gras.

Hyfryd oedd derbyn cyfarchion a dymuniadau gorau oddi wrth nifer o eglwysi eraill nos Sul – capel y Bedyddwyr, Bethania, Llansannan, a chynulleidfaoedd yr Annibynwyr yn Llanberis a Chei Newydd, ynghyd â phresenoldeb aelodau o sawl eglwys leol arall. Braff iawn hefyd oedd cwmni aelodau Henaduriaeth Dyffryn Clwyd, Cyfundeb yr Annibynwyr a'r Gymdeithasfa yn y Gogledd sydd wedi bod mor gefnogol i'n hymdrechion yma yn Fro. Diolch o galon i'r holl gynrychiolwyr a'r swyddogion am eu cyfraniadau urddasol ac i'r Parch. Ddr. Geraint Tudur am bregeth rymus ac am siars ysgytwol, nid yn unig i'r tri ohonom ni fel gweithwyr, ond i holl aelodau corff Crist.

Fe'm trawyd gan yr undod ysbryd a oedd yn bresennol nos Sul. Pan oedd Meirion yn gweddiô trosom fel tîm roeddem yn ymwybodol iawn o'r dyhead ysbrydol sydd wedi bod ynddo fo – ac sy'n parhau felly – i weld y dydd yn dod pan fydd yr ychydig yn troi yn llawnder dan fendith yr Ysbryd. Wedi cael y diferion, cael yr amser pryd y cawn fynd i'r môr! Cynhaeaf llawn! Y mae'r dyhead hwn yn gyffredin ymhob enwad ac y mae'r ymateb, fel y cyfeiriodd Geraint, yn bwysicach nag unrhyw enwad.

Dyna'n gweddi ninnau fel tîm, sef y cawn undod pwrpas a nod i gydweithio er gogoniant i'r Arglwydd ac mewn diolchgarwch parhaus. Diolch i chwithau am eich holl gefnogaeth ac am ein cadw yn eich gweddiâu. Edrychwn ymlaen at gael gwasanaethu'r Arglwydd yn eich plith hyd nes y daw!

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinig yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Mercher • **'Dod i Adnabod'** – grwp/iau Adnabod newydd yn cychwyn am 8.00. Cysylltwch â Mair erbyn nos Lun os oes gennych ddi-ddordeb (*mwy o fanylion trosodd*).
- Grwpiau tai **Adnabod** yn cyfarfod am 8.00.
- Iau • **Astudiaeth Feiblaidd** dan arweiniad Rhodri yn Llanefydd am 7.30.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinig yr oedfa gan Elinor Owen, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 (SYLWCH AR Y NEWID AMSER) gyda'r Ysgol Sul yn dilyn am 11.00. Cyfarfod Gweddi fydd hefyd yng Nghefn Meiriadog a hynny am 10.30 gyda'r Ysgol Sul am 2.00.
- Mercher Oedfa Ddiolchgarwch yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn am 7:00 gyda'r Parch William Davies yn pregethu.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Ar ddechrau oedfa'r bore am 10.00, bydd cynrychiolwyr o'r Henaduriaeth yn ymddiddan ag Elinor Owen am ei chymwysterau i waith y weinidogaeth, ac yna'n rhoi cyfle i'r eglwys, trwy bleidlais ddirgel, i ddatgan barn am yr ymgeisydd. Yna, bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd pryd y bydd Dona a Kevin yn cyflwyno Aron Sion i gael ei fedyddio. Bydd yr Ysgol Sul fel arfer.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch Euros Wyn Jones yn arwain oedfa am 10.00 a'r Ysgol Sul yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa arbennig i'r daith ac yn gweinyddu'r cymun yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch Euros Wyn Jones yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant a'r Ieuencid yng Nghapel Saron am 10:00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi Diolchgarwch ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 2.00.
- Gwener Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch Peniel am 7.00. Pregethir gan y Parch Huw Dylan Jones. Croeso i bawb.
- Sadwrn Ffair Hydref Capel Peniel yn Eirianfa Dinbych o 10.00–12.00. Amryw stondinau. Mynediad £1.
- Sul nesaf Bydd y Parch Eifion Jones yn arwain oedfa yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Cyfarfod Gweddi yn Groes am 10.00 a bydd y Parch Bernant Hughes yn arwain oedfa gymun yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Llun Gŵyl Ddiolchgarwch Capel Henllan. Cyfarfod am 2.00 gyda phlant Ysgol Henllan yn cymryd y rhan arweiniol a Dr Owain Edwards, Coleg y Bala yn rhoi anerchiad. Y Parch Huw Dylan Jones fydd yn arwain yr oedfa am 7.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch Hywel Edwards yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 a Rhodri yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau